***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 575

# Rheoliadau Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Chyflasynnau Mwg (Addasu Awdurdodiadau) (Cymru) 2022

## RHAN 3

### Cyflasynnau Mwg

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1321/2013 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb o gynhyrchion cynradd a awdurdodir i greu cyflas mwg i'w defnyddio yn y modd hwnnw mewn bwydydd neu arnynt a/neu i gynhyrchu cyflasynnau mwg deilliedig**

**3.** Yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1321/2013 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb o gynhyrchion cynradd a awdurdodir i greu cyflas mwg i'w defnyddio yn y modd hwnnw mewn bwydydd neu arnynt a/neu i gynhyrchu cyflasynnau mwg deilliedig(**1**), mae'r Atodiad (rhestr ddomestig o gyflasynnau mwg awdurdodedig) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 4 i 8.

(**1**) EUR 1321/2013, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/860.